STEDDFOTA
Cylchlythyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
Rhif 73 | Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau | Awst 2025

# O'R GENEDLAETHOL I'R LLEOL

**Llwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2024 oedd yr ysgogiad ddaeth â chriw bach ohonom at ein gilydd yn yr hydref y llynedd â'r nod o gadw momentwm y gwaith cymunedol oedd wedi dod â phobl at ei gilydd yn lleol.**

Pen llanw'r cyfarfod cyntaf hwnnw oedd Eisteddfod Pontypridd – y gyntaf o lawer, gobeithio – ar 28 Mehefin yng Nghapel y Bont a Chlwb y Bont yng nghanol y dref. Ac o'r syniad cychwynnol hwnnw o sefydlu eisteddfod leol, fydden ni ddim wedi gallu breuddwydio y byddai hi wedi bod mor llwyddiannus – cannoedd o gystadleuwyr yn y cystadlaethau llwyfan a gwaith cartref, yr ysgolion cynradd lleol yn cefnogi'n frwd ar fore Sadwrn poeth ar ddiwedd tymor prysur, degau o ddysgwyr lleol yn cofleidio'r cyfle i gystadlu drwy gyfrwng y Gymraeg, corau o safon yn bloeddio canu ar ddiwedd y cystadlu, a'r capel yn llawn drwy gydol y dydd.

Roedd y trefnwyr wrth eu bodd, y beirniaid yn brolio'r safon a phawb wedi cael gwledd o Gymreictod bron i flwyddyn wedi ymweliad y Genedlaethol. Ymlaen i 2026!

*gan Iolo Roberts, Cadeirydd, Eisteddfod Pontypridd*





# ANRHYDEDD Y WISG LAS



Pleser yw gallu llongyfarch is-gadeirydd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, wrth iddo gael ei anrhydeddu a'i dderbyn i'r Orsedd eleni.

Yn wreiddiol o Borthmadog, ac yn byw yng Nghaerdydd erbyn hyn, mae Bill Davies, wedi cefnogi eisteddfodau lleol a chenedlaethol ar hyd a lled Cymru dros y blynyddoedd. Bu'n ysgrifennydd cyffredinol Eisteddfod Bro Llandegfan am dros 20 mlynedd, yn gadeirydd Eisteddfod Môn, 2008, ac erbyn hyn mae'n ymddiriedolwr ac yn aelod o bwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd, gan weithredu fel yr is-gadeirydd.

Rydym, fel Cymdeithas, yn falch iawn ei fod wedi derbyn yr anrhydedd hon. Mae e bob amser yn barod gyda gair o gyngor doeth, a gwerthfawrogir ei brofiad a'i arweiniad caredig yn fawr.

Llongyfarchiadau gwresog iddo. Edrychwn ymlaen at ei weld yn cael ei urddo ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam eleni.

**AELODAETH FLYNYDDOL i EISTEDDFODAU LLEOL £20**

*YN DALADWY DRWY SIEC NEU ARCHEB BANC*

*Yr holl fanylion angenrheidiol a ffurflen ymaelodi ar www.steddfota.cymru*

# CYSTADLAETHAU 2025-2026

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

EISTEDDFOD Y Garreg Las 2026

## CYSTADLEUAETH TLWS YR IFANC

**2025 - 2026**

Darn o farddoniaeth neu ryddiaith ar unrhyw ffurf. Hyd at 2,000 o eiriau.

Bydd gofyn i feirniaid argymell hyd at 3 darn o waith haeddiannol (rhaid cynnwys yr enillydd), i'w cynnig i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru ar gyfer y gystadleuaeth hon.

**Gwobr £200**

Clwb Eryri
er cof am y diweddar Geraint Ellis

Penodir dau feirniad yn y Genedlaethol i wobrwyo'r gwaith gorau. Dyfernir gwaith o Eisteddfodau lleol Cymru rhwng Ebrill 2025 ac Ebrill 2026.

www.steddfota.cymru

## Cystadleuaeth Perfformio 2025-26

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

## MEWN CYMERIAD

*Cyfle i unigolyn bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol Cwmni Mewn Cymeriad*

Perfformiad hyd at 5 munud, wedi'i seilio ar ddewis o 5 sgript

MEWN CYMERIAD



**OED: 16-25** **GWOBRAU: 1af £150; 2il £120; 3ydd £90**

(Noder mai gwobrau'r gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r rhain. Cyfrifoldeb yr eisteddfodau lleol unigol fydd penderfynu ar wobrau eu heisteddfod nhw.)

- Dylai'r pwyslais fod ar greu perfformiad ysgafn, fydd yn profi gallu'r unigolyn i ryngweithio'n hwylus gyda'r gynulleidfa a chyfleu'r stori'n glir
- Caniateir gwisgoedd a props
- Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol **rhwng Mai 2025 a Mai 2026** yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las, Sir Benfro 2026.
- Bydd yr enillydd cenedlaethol yn derbyn gwahoddiad i ymuno â Chwmni Mewn Cymeriad maes o law ar gyfer gweithdy ymarferol i ddatblygu sgiliau ymhellach

EISTEDDFOD Y Garreg Las 2026

Mewn Cymeriad In Character

PUMP SGRIPT AR GAEL O WEFAN CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU www.steddfota.cymru



## Cystadleuaeth Gorawl 2025-2026

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

EISTEDDFOD Y Garreg Las 2026



Unrhyw gyfuniad o leisiau, heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunanddewisiad, heb fod yn hwy na 10 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro. Gellid hefyd defnyddio trefniant o alaw werin Gymreig gan gyfansoddwr o Gymro.

**GWOBRAU**

*£1,000 Gwobr Goffa Catherine Lloyd Morgan, gynt o Ffair Rhos*

1af £500 a Chwpan Miss Menai Williams a Mrs Nesta Davies *(i'w ddal am flwyddyn)*
2il £300
3ydd £200

*Cyflwynir Medal Goffa Gwilym E Humphreys (Cymrawd yr Eisteddfod Genedlaethol) i arweinydd y côr buddugol*

**AMODAU**

- Ni chaniateir i unrhyw gôr ail-ganu cân mewn categori arall adeg yr Ŵyl
- Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Mai 2025 a Mai 2026 yn rhoi'r hawl iddynt gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las (Sir Benfro) 2026
- Wrth gofrestru bydd rhaid nodi enwau'r eisteddfodau lleol y cystadlwyd ynddynt

**Gweler ein gwefan ar gyfer:**

* Manylion llawn, amodau a rheolau pob cystadleuaeth
* Dewis o sgriptiau Mewn Cymeriad - Mari Jones, Kate Roberts, Owain Glyndwr, Dic Penderyn a Cranogwen

**www.steddfota.cymru**

STEDDFOTA
Cylchlythyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

**Am gopi, e-bostiwch: popeth@steddfota.cymru**

*Gofynnir yn garedig i chi ein hysbysu am unrhyw newid cyfeiriad/manylion cyswllt NEU os nad ydych yn dymuno derbyn copi*

*DRWY'R POST
*O'R WEFAN
*AR E-BOST
*MEWN SIOPAU CYMRAEG





## AR GAEL I'CH EISTEDDFOD CHI

**Chwilio am feirniad neu gyfeilydd?**

Cofiwch am ein rhestr:

E-bostiwch: popeth@steddfota.cymru



# MWYNHAU YM MARGAM

Mwynhawyd wythnos lwyddiannus yn ein cwt pren ar faes Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025, gyda nifer sylweddol o ymwelwyr yn galw heibio yn ystod yr wythnos. Daeth nifer am sgwrs anffurfiol, ac roedd diddordeb mawr yn y rhestrau testunau a oedd ar gael gennym. Hyfryd oedd croesawu Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, a chael cyfle am sgwrs fer gydag ef am waith y Gymdeithas a phrysurdeb yr eisteddfodau lleol.

Bu cystadleuaeth "Jôc y Dydd" yn arbennig o boblogaidd unwaith eto gyda'r ieuenctid (ac ambell un ychydig yn hŷn!), gan greu awyrgylch hwyliog ac annog ymwelwyr i ddychwelyd yn ddyddiol. Diolch i griw Stwnsh Sadwrn am alw i ddewis enillydd bob dydd.

Er bod y tywydd yn ansefydlog ar adegau, llwyddwyd i gynnal awyrgylch cadarnhaol drwy gydol yr wythnos, a chawsom amser gwerth chweil. Llongyfarchiadau i bawb, a diolch i Barc Margam am y croeso!













## Llais Llwyfan LLANBED

**CYSTADLEUAETH GLASUROL I GANTORION DAN 30 OED**

Llongyfarchiadau i'r bedair unawdydd fydd yn cystadlu am deitl Llais Llwyfan Llanbed 2025 - Caitlin Hockley, Carys Davies, Ffion Mair Thomas a Scarlett Jones.



Cafwyd rhagbrawf o safon rhagorol ar ddydd Sul, 22 Mehefin, yn Festri Capel Brondeifi, Llanbed, â thipyn o grafu pen i'r beirniaid, Leah Marian Jones a Patrick Young.

Cynhelir y rownd derfynol yn ystod penwythnos Eisteddfod Rhys Thomas James, Llanbedr Pont Steffan, ar nos Sul 24 Awst. Mae'n argoeli i fod yn noson arbennig!

# O 'STEDDFOD I 'STEDDFOD

## EISTEDDFOD GADEIRIOL YR HENDY







Ffion Morgan (chwith) - Bardd y Gadair, a Nanw Maelor - enillydd Tlws yr Ifanc

## EISTEDDFOD GADEIRIOL MAENCLOCHOG



Seremoni Cadeirio'r bardd buddugol - Eifion Daniels, Blaenffos



Y ddau feirniad - Gwenallt Llwyd Ifan a Meinir Jones Parry

## EISTEDDFOD MÔN BRO SEIRIOL



Rachael Bedwin (Medal y Dysgwyr), Edward Morus Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith), Siân Esmor Rees (Y Gadair)



Catrin Jones Hughes - enillydd Y Fedal Ddrama, ac Elin Heledd - Y Fedal Ryddiaith

## EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN CONWY LLANRWST



Enillydd Ysgoloriaeth Colin Jones - Ilan Jones o Fachynlleth, ac yntau hefyd enillodd yr Her Unawd.



Meilir Tudur Davies - enillydd Tlws Coffa Maureen Hughes i gystadleuydd mwyaf addawol Adran Gerdd bl.9 ac iau

## EISTEDDFOD GADEIRIOL CASTELLNEWYDD EMLYN A'R CYLCH



Enillwyd Cadair yr Eisteddfod gan Nia Llewelyn, Drefach, Felindre



Erin Thomas, Trebedw, Henllan - enillydd y Tlws Ieuenctid

## EISTEDDFOD YR HEN GAPEL LLANBRYNMAIR



Criw o ddeuawdwyr llwyddiannus



Yr offerynnwyr talentog a ddaeth i'r brig yn eu cystadleuaeth

## EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANDUDOCH



Gwyn Morris, Aberteifi - buddugol yng nghystadleuaeth Yr Hen Ganiadau



Enillydd Tlws Llenyddol y Dysgwyr - Kate Smith

## EISTEDDFOD MARIAN-GLAS



Llun gan Phil Hen

Lleucu Hughes o Lanuwchllyn - enillydd Tlws yr Ifanc, a Mared Fflur Jones, yn ennill Cadair Olwen Canter



Llun gan Phil Hen

Un o'r criwiau o ieuenctid talentog a llwyddiannus fu'n swyno'r gynulleidfa

## EISTEDDFOD BRO ALED LLANSANNAN



Seren ifanc a gipiodd dair wobr 1af yng nghystadlaethau Blwyddyn 1 a 2 oedd ag 14 o gystadleuwyr ym mhob cystadleuaeth, ac hefyd 1af am ysgrifennu stori. Tipyn o gamp i ferch mor ifanc!

## EISTEDDFOD BRO LLANDEGFAN



Bardd y Gadair - Andrea Parry



Dau o gystadleuwyr ifanc llwyddiannus yr eisteddfod

## EISTEDDFOD PONTYPRIDD

Braf gweld nifer o gorau lleol yn cystadlu a chefnogi Eisteddfod Pontypridd







**LLONGYFARCHIADAU!**

**DIOLCH YN FAWR I'R HOLL FFOTOGRAFFWYR**

Mwy o luniau a chanlyniadau ar www.steddfota.cymru

Edrychwn ymlaen at rannu blas o fyd yr eisteddfodau gyda chi yn y Steddfota nesaf. Pob hwyl gyda'r cystadlu!

# WYTHNOS YN WRECSAM!

## Cofiwch alw draw i'r stondin - cewch groeso cynnes!



CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

EISTEDDFOD Wrecsam 2025

### SADWRN 2 AWST

**14:30** (PAFILIWN)
**CYSTADLEUAETH GORAWL CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU**
*Corau sydd wedi cystadlu mewn dwy eisteddfod leol ers Mai 2024.*



**14:30**
**GWEITHDY CLOCSIO** *Tudur Phillips*
*Hwyl a sbri wrth ddysgu sgiliau clocsio*



### SUL 3 AWST

**09:55 CRIW STWNSH**
*"Jôc y Dydd" - dewis enillydd Dydd Sadwrn*

**10:00 BARDD PLANT CYMRU** *Nia Morais*



**16:30** (Y BABELL LÊN)
**GWOBRWYO ENILLYDD TLWS YR IFANC**
*Uchafbwynt cystadleuaeth ar y cyd rhwng CEC a'r Eisteddfod Genedlaethol*




### LLUN 4 AWST

**09:55 CRIW STWNSH**
*"Jôc y Dydd" - dewis enillydd Dydd Sul*

**11:30 LLEUCU LLYFRAU**
*Cyfle i fwynhau stori*



**12:30 MEWN CYMERIAD**
*Sioe Thomas Telford*

**15:00 MARED WILLIAMS**
*Perfformiad yng nghwmni'r gantores dalentog o Lanefydd*



### MAWRTH 5 AWST

**09:55 CRIW STWNSH**
*"Jôc y Dydd" - dewis enillydd Dydd Llun*

**11:45** (PAFILIWN)
**CYSTADLEUAETH "MEWN CYMERIAD"**

**13:30** (PABELL Y LLYWODRAETH)
**CYFLWYNO TYSTYSGRIFAU**
*Seremoni, dan arweiniad Angharad Mair, S4C, i anrhydeddu cyfraniad gwirfoddolwyr o eisteddfodau'r Gogledd.* ***Croeso i bawb.***



**14:45 LLEISIAU CEIRIOG**
*Perfformiad yng nghwmni côr lleol*



**16:00 CYFARFOD BLYNYDDOL**
*Edrych 'nôl dros weithgareddau'r flwyddyn ac ymlaen at 2026.*

### MERCHER 6 AWST

**09:55 CRIW STWNSH**
*"Jôc y Dydd" - dewis enillydd Dydd Mawrth*

**11:00 LLEUCU LLYFRAU**
*Dewch i ddianc i fyd stori fach arall*



**15:00 DYLAN CERNYW**
*Perfformiad ar y delyn*



### IAU 7 AWST

**09:55 CRIW STWNSH**
*"Jôc y Dydd" - dewis enillydd Dydd Mercher*

**11:00 GWEITHDY CLOCSIO**
*Cyfle arall i roi cyfle ar sgiliau clocsio yng nghwmni Tudur Phillips*



**14:00 GILDAS**
*Arwel Lloyd - perfformiad byw*



### GWENER 8 AWST

**09:55 CRIW STWNSH**
*"Jôc y Dydd" - dewis enillydd Dydd Iau*

**11:00 GILDAS**
*Arwel Lloyd - perfformiad byw*

**15:00 DYLAN CERNYW**
*Perfformiad ar y delyn*





### SADWRN 9 AWST

**09:55 CRIW STWNSH**
*"Jôc y Dydd" - dewis enillydd Dydd Gwener*

**15:00 TYNNU RAFFL 2025**
*Gyda noddwr y raffl 'Teithiau Elfyn Thomas'*



# GŴYL CYHOEDDI

Daeth nifer dda o aelodau Gorsedd Powys a chyfeillion ynghyd ym Machynlleth p'nawn Sadwrn Mehefin 28 eleni, i Gyhoeddi'r Eisteddfod a gynhelir yn Y Tabernacl, Machynlleth Gorffennaf 3 a 4, 2026.





Cyn defodau'r seremoni cafwyd gorymdaith o amgylch y dref o Ysgol Bro Hyddgen hyd at Blas Machynlleth.

Roedd y seremoni yng ngofal y Derwydd Gweinyddol Beryl o Gefnllys, y Cofiadur Sioned Elin a'r Arwyddfardd Pryderi.

Cafwyd y gweithrediadau arferol, tebyg iawn i Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol, sef y Corn Gwlad, Agor yr Orsedd, Gweddi'r Orsedd, Y Ddawns Flodau, Y Corn Hirlas a'r Aberthged, y cywydd croeso, anerchiad barddol, cyflwyno'r rhaglen swyddogol, cyhoeddi'r prif gystadaethau a chau'r Orsedd. Ond mae un digwyddiad gwahanol yng Ngorsedd Powys, sef Canu Emyn yr Orsedd gan Wyth Gwladwr, sef dau yn canu i bob pwynt y cwmpawd.

Wedi cau'r Orsedd cafwyd te blasus mewn bwyty agos.

*gan Huw Ceiriog*

# HWYL FAWR

Ar ddiwedd mis Gorffennaf bu'n rhaid ffarwelio gydag Angharad, ein Swyddog Datblygu, sydd wedi symud ymlaen at gyfle newydd, cyffrous.

Er mai cyfnod weddol fyr a dreuliodd yn y swydd, fe wnaeth gryn argraff gyda'i brwdfrydedd trefnus a'i syniadau ffres. Bydd bwlch mawr ar ei hôl ac fe fyddwn yn siwr o golli ei chwmni a'r cydweithio hwylus.

Dymunwn y gorau i ti, Angharad, yn dy sialens newydd, a diolch i ti am dy gyfraniad at waith y Gymdeithas.






# COFIO ANNETTE BRYN PARRI

Gyda thristwch mawr y clywyd am farwolaeth Annette Bryn Parri ar ddiwedd mis Mai. Fel cyfeilydd talentog roedd hi'n wyneb cyfarwydd iawn ar lwyfannau Cymru, yn Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ac ar raglen Noson Lawen S4C.

Bu'n gyfeilydd i nifer o sêr Cymru ar hyd y blynyddoedd, gan gynnwys Hogia'r Wyddfa. Ym 1982 enillodd wobr Grace Williams am gyfansoddi yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Pwllheli, a'r Rhuban Glas i offerynwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Y Rhyl 1985. Graddiodd o Goleg Cerdd Brenhinol Manceinion ym 1984.

Bu'n gyfeilydd i gorau Ysgol Glanaethwy, yn gyfarwyddwr cerdd Côr Meibion y Traeth ac yn fwyaf diweddar bu Annette yn gyfarwyddwr cerdd Côr Heddlu Gogledd Cymru.

Fel Cymdeithas, diolchwn iddi am ei chyfraniad eithriadol i gerddoriaeth Cymru, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i theulu yn eu colled.



*Llun gan Canolfan Gerdd William Mathias*

# EISTEDDFODAU 2025-2026

**CEFNOGWCH EICH 'STEDDFOD LEOL!**

**Dyma'r eisteddfodau sydd wedi'u cadarnhau, hyd yma, tan ddiwedd 2025, ac yn wythnosau cyntaf 2026. Diweddarir y rhestr ar www.steddfota.cymru wrth i ni dderbyn dyddiadau. Bydd y rhestrau testunau ar gael i'w lawrlwytho yn ogystal, unwaith y byddwn wedi'u derbyn gan eisteddfodau.**

**Gofynnwn yn garedig i bwyllgorau gysylltu cyn gynted â byddwch wedi sefydlu dyddiad eich eisteddfod.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2-9 Awst | Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam | www.eisteddfod.cymru | | |
| 22-25 Awst | Eisteddfod Rhys Thomas James Llanbedr Pont Steffan | Dorian Jones | 07814 440581 | doriancop@icloud.com |
| 12-13 Medi | Eisteddfod Gadeiriol Tregaron | Eirwen James | | eirwen.tymawr@live.co.uk |
| - - - - | Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth | *Dim eisteddfod yn 2025. Dyddiad 2026 ar y wefan.* | | |
| 20 Medi | Eisteddfod Gadeiriol y Tymbl | Anwen Evans | 01269 833568 | anwenevans@live.co.uk |
| 27 Medi | Eisteddfod Gadeiriol Llanwrtyd | Susan Price | 01591 610303 | elinmabbutt@live.co.uk |
| 27 Medi | Eisteddfod Penbre a Phorth Tywyn | Matthew Tucker | 07538760786 | eisteddfodppt@gmail.com |
| 3 Hydref | Eisteddfod Stesion Trawsfynydd | Einir Jones | 07471 079680 | Eisteddfodstesion@gmail.com |
| 4 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Trefeglwys | Margaret Jones | 01686430474 | margaretjones@pc-q.net |
| 10 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Llanarth | Catrin Bellamy Jones | 01545 580279 | catrinbj1@gmail.com |
| 11 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn | Bethan Jones | | bethwyn73@gmail.com |
| 11 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen | Davinia Davies | 07879 692347 | daviniaharries@hotmail.com |
| 11 Hydref | Eisteddfod y Plant, Llandrindod | Theresa Corbett | 0759566 1849 | Dwrgi20@gmail.com |
| 17 Hydref | Eisteddfod Llandyrnog | Iona Davies | 07765 946809 | ionapari@hotmail.co.uk |
| 17 Hydref | Eisteddfod y Cymoedd | Luned Jones | 07811 618193 | luned_john@hotmail.com |
| 18 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Felinfach | Meinir Lewis | 01570 470050 | euros@mailsaq.net |
| 25 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint | Tina Morris | 07816 602981 | tina.morris@lasrecycling.com |
| 8 Tachwedd | Gŵyl Cerdd Dant Aberystwyth a'r Fro | www.cerdd-dant.org | | |
| 14-15 Tachwedd | Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen | Lowri Watcyn Roberts | 07815 093955 | l.roberts11@btinternet.com |
| 15 Tachwedd | Eisteddfod CFfI Cymru | www.cffi.cymru | | |
| 22 Tachwedd | Eisteddfod Gadeiriol Aelhaearn | Mary C Jones | 01286 660768 | mary.jones17@btinternet.com |
| **2026** | | | | |
| 24 Ionawr | Eisteddfod Gadeiriol Chwilog | Gwyn Parry Williams | 01766 810717 | gwynarhian@btinternet.com |
| 6 Chwefror | Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd | Gaenor Mai Jones | | cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru |
| 7 Chwefror | Eisteddfod Llawrplwy' a Phenstryd Trawsfynydd | Menna Davies | | mennadolgain@gmail.com |
| 28 Chwefror | Eisteddfod Gadeiriol Crymych a'r Cylch | Ann Davies<br>Awen Evans | 01994 419268<br>01239 891637 | ann_capel@yahoo.co.uk<br>alwyn.evans@btconnect.com |

**SWYDDOG DATBLYGU**

*i'w benodi*



**YMHOLIADAU CYFFREDINOL**

popeth@steddfota.cymru



**SWYDDOG CYFATHREBU**

***Lois Williams***

01570 423700/07717842556

lois@steddfota.cymru

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

CYMRAEG

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru / Part Funded by Welsh Government

www.steddfota.cymru

YouTube